SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2023-2024











www.northwales-pcc.gov.uk

# CYFLWYNIAD



Croeso i'm Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024, sy'n cynnwys y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 tan fis Mawrth 2024. Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) ers cael fy ethol ym mis Mai 2021. Wrth i mi ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, rwyf yn dechrau fy ail dymor yn y swydd, ar ôl cael fy ailethol gan gymunedau Gogledd Cymru ar 3 Mai 2024.

Rwyf yn teimlo hi'n fraint aruthrol cael fy ail-ethol gan bobl Gogledd Cymru. Mae'n dangos eu bod yn hapus hefo'r gwaith rwyf wedi bod yn ei wneud dros y tair blynedd diwethaf er mwyn gwneud plismona yn fwy effeithiol, effeithlon ac atebol. Mae mwy o waith y gallwn ei wneud bob amser, ac edrychaf ymlaen at wasanaethu holl bobl Gogledd Cymru, p'un a ydynt wedi pleidleisio i mi ai peidio.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae fy swyddfa a minnau wedi bod yn weithgar yn y gymuned. Er enghraifft, mi wnes i ddechrau cyfres o gymorthfeydd cyhoeddus, gan gysylltu'n uniongyrchol hefo cymunedau er mwyn gwrando ar farn a phryderon pobl o ran plismona.

Ym mis Mai, fe wnaethon ni drefnu digwyddiad 'Ar agor ar gyfer Busnes', a oedd yn edrych ar ymdrin â chaethwasiaeth fodern yn economi Gogledd Cymru yn dilyn y pandemig. Ym mis Mehefin, cafwyd digwyddiad 'Diogelwch Seiber Gogledd Cymru', a oedd yn rhoi cipolwg hanfodol i berchnogion busnes ar ddiogelu eu mentrau rhag troseddau seiber sy'n esblygu o hyd. Gan fynd i'r afael â heriau unigryw sy'n wynebu ein cymunedau cefn gwlad, cafwyd digwyddiad ar y cyd yng Nghaernarfon ym mis Mai mewn partneriaeth hefo Heddlu Gogledd Cymru a Thir Dewis. Edrychwyd ar ffyrdd arloesol o wella diogelwch yng nghefn gwlad. Ym mis Ebrill, fe wnes i gyflawni ymrwymiad allweddol a wnaed yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Cafwyd cyfarfod cyntaf Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru er mwyn clywed gan ddioddefwyr yn uniongyrchol am eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol a dysgu o'u canfyddiadau.

Wrth i wyliau'r haf nesáu ym mis Gorffennaf, cafodd clybiau a sefydliadau ieuenctid ledled Gogledd Cymru eu hannog i ymgeisio am gyllid drwy fy Nghronfa Bêl-Droed yr Haf arbennig, a brofodd yn hynod lwyddiannus wrth helpu amryw o weithgareddau egnïol i bobl ifanc. Roeddwn i hefyd yn falch o fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst ym Moduan, Gwynedd. Fel dysgwr Cymraeg fy hun, rwyf yn gwybod pa mor bwysig ydy cael cyfleoedd i ddarllen, siarad ac ymarfer yr iaith ac mae'r Eisteddfod yn lle gwych i bawb ddathlu ein diwylliant unigryw. Fe gawson ni hefyd amser prysur yn mynd i sioeau sir yr haf ar draws y gogledd. Roedden ni'n Sioe Môn, Sioe Dinbych a Fflint a Sioe Meirionnydd. Fe wnaethon ni fwynhau cyfarfod hefo'r cyhoedd a thrafod fy mlaenoriaethau i fel Comisiynydd. Fe wnaethon ni groesawu dros 5,000 o aelodau o'r cyhoedd i'n stondinau ni dros y gwahanol ddigwyddiadau.

Ym mis Rhagfyr lansiwyd fy Nghronfa Nadolig Cymunedol, lle wnes i ddyrannu £15,000, mewn grantiau bach o £500, i sefydliadau sy'n gweithio er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc bregus a'u teuluoedd.

Rwyf yn falch o ddweud, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bod achosion o droseddau a gofnodwyd ledled Gogledd Cymru wedi gostwng 13% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol wedi cynyddu ychydig dros 2%. Mae'r rhain yn ganlyniadau cadarnhaol, ond rwyf yn ymwybodol fod mwy o waith i'w wneud o hyd. Gwnaf weithio hefo Heddlu Gogledd Cymru er mwyn lleihau trosedd a gwella cyflawniad ymhellach eto.

Ar ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn, roeddwn eisiau mynegi fy niolch cywiraf unwaith eto i holl swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Rwyf hefyd yn dymuno diolch i gymunedau Gogledd Cymru am eu hymgysylltiad a'u cymorth parhaus.

**Andrew Dunbobbin**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

# GALW AR HEDDLU GOGLEDD CYMRU

**1 EBRILL 2023 TAN 31 MAWRTH 2024**



## Galwadau 999

**119,552**
(cynnydd o **12%**)

## 101 o alwadau

**241,327**
(cynnydd o **3%**)

## Cyswllt Digidol

**88,162**
(Sgyrsiau we **24,805** a negeseuon e-bost **63,357**)

## Ymateb i Ddigwyddiadau

**61,479**

## Arestiadau

**19,552**
(cynnydd o **10%**)

# AMCANION Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD

## FY MLAENORIAETHAU

### CYFLAWNI CYMDOGAETHAU DIOGELACH

- Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd

### CYNORTHWYO DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

- Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Diogelu pobl fregus gan gynnwys plant
- Ymdrin ac atal troseddau seiber
- Sefydlu panel dioddefwyr
- Atal a mynd i'r afael â Throsedd Casineb

### SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL EFFEITHIOL A THEG

- Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu



# BLWYDDYN SCHTh MEWN RHIFAU

**£49,000**
wedi'i ddyrannu drwy'r Gronfa Arloesi i Dyfu

**£13,000**
wedi'i ddyrannu drwy Gronfa Bêl-droed yr Haf, gan ymgysylltu hefo **35,000** o bobl ar gyfryngau cymdeithasol

**£1.8m**
wedi'i ddyrannu drwy'r Gronfa Gwasanaethau Dioddefwyr

Sicrhau **£1m** gan y Swyddfa Gartref er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn llecynnau

Mae **499** o gwynion wedi'u cofnodi hefo **31** cais i'r Comisiynydd am Adolygiad

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ystyried **53** o achosion ymddygiad gan arwain at **12** diswyddiad

Wedi comisiynu BRAKE i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb i deuluoedd yn dilyn gwrthdrawiad ffordd anafiadau angheuol neu drychinebus. Hyd yn hyn, mae **25** o unigolion wedi derbyn cymorth

Cynhaliodd Ymwelwyr Annibynnol Dalfeydd **119** o ymweliadau a siaradwyd hefo **270** o garcharorion

**50** o erthyglau ac ysgrifau nodwedd yn y wasg bob mis

Cynnydd o **50%** mewn ymatebion i'r arolwg ymgynghori praesept

Dros **5,000** o ymwelwyr i stondin SCHTh yn yr Eisteddfod Genedlaethol a sioeau'r haf

# DYLETSWYDD TRAIS DIFRIFOL

Ers i Strategaeth Trais Difrifol Llywodraeth y DU ddod i rym ym mis Ionawr 2023, rwyf yn falch o adrodd cynnydd sylweddol. Fel cynullydd y ddyletswydd yng Ngogledd Cymru, gallaf gadarnhau ein bod ni wedi llwyddo bodloni holl ofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol yn ystod 2023-24. Y rhain ydy:

Er mwyn mynd i'r afael â thrais difrifol a'i achosion sylfaenol yn ein hardaloedd lleol, fe wnes i arwain datblygiad sef **asesiad anghenion strategol cynhwysfawr** ynghylch trais difrifol. Roedd y gwaith hanfodol hwn yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan bartneriaid allweddol, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân ac achub, ac asiantaethau iechyd a chyfiawnder troseddol penodol. Roedd y ddealltwriaeth o'r asesiad hwn yn sylfaen i'n Strategaeth Trais Difrifol gyntaf erioed.

Roedd datblygu ein **Strategaeth Trais Difrifol** yn ymdrech ar y cyd wedi'i ysbrydoli gan waith anhygoel ein partneriaeth amrywiol. Fe wnaethom gomisiynu Crest Advisory UK er mwyn cynorthwyo Partneriaeth Gogledd Cymru Diogelach wrth lunio'r ddogfen nodedig hon.

Mae'r strategaeth hon yn fwy na dogfen yn unig. Mae'n alwad i weithredu. Mae ei gweledigaeth yn glir: Gogledd Cymru lle nad ydy trais yn teyrnasu, lle mae unigolion yn teimlo'n ddiogel a mwy hyderus, a lle mae teuluoedd yn ffynnu mewn parch ac urddas. Mae'r weledigaeth gyffredinol hon yn arwain ein hamcanion strategol er mwyn cydweithio, law yn llaw hefo'n cymunedau, er mwyn atal a lleihau trais difrifol o bob math.

Mae **pileri'r** strategaeth hon sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a amlinellais yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r meysydd allweddol hyn yn canolbwyntio ar:

- **Cynorthwyo a gwella atal ac ymyrraeth gynnar:** Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched a genethod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.
- **Hyrwyddo diogelu cyd-destunol:** Mae hyn yn golygu gweithio'n rhagweithiol hefo plant ifanc a phobl ifanc bregus i'w gwarchod nhw rhag camfanteisio a chaethwasiaeth fodern.
- **Nodi a gweithredu arferion gorau:** Fel partneriaeth gydweithredol, rydym wedi ymrwymo gwella'n barhaus, arloesi, a defnyddio'r dulliau gorau er mwyn mynd i'r afael â thrais difrifol.
- **Creu ymdriniaeth ataliol:** Drwy ddeall ffactorau risg, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac effaith trawma, gallwn ddatblygu mesurau ataliol yng Ngogledd Cymru.

Datblygwyd y blaenoriaethau hyn ar y cyd er mwyn ein tywys ni ar daith a rennir tuag at Ogledd Cymru heb ddim trais.

Rwyf yn hynod falch o'r gwaith sy'n deillio o bartneriaethau presennol. Mae gennym hanes hir o gydweithio llwyddiannus ar draws asiantaethau. Rwyf yn rhannu hyder y partneriaethau yn yr hyn y gellir ei gyflawni hefo'n gilydd.



# TROSEDDAU A GOFNODWYD YNG NGOGLEDD CYMRU

O fis Ebrill 2023 tan fis Mawrth 2024 o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol

## Trosedd yn gyffredinol: I lawr -13.1%

(i lawr o 63,624 i 55,312)

**VAWG: I lawr**
(i lawr o 15,123 i 12,415)
**-17.9%**

**Troseddau Casineb: I lawr**
(i lawr o 1,285 i 1,019)
**-20.7%**

**Treisio: I lawr**
(i lawr o 1,285 i 1,019)
**-14.2%**

**Trais hefo anaf: I lawr**
(i lawr o 7,307 i 6,678)
**-8.6%**

**Trais heb anaf: I lawr**
(i lawr o 11,290 i 9,971)
**-11.7%**

**Stelcian ac Aflonyddu: I lawr**
(i lawr o 11,472 i 9,761)
**-14.9%**

**Byrgleriaeth (Preswyl): I lawr**
(i lawr o 1,328 i 1,165)
**-12.3%**

**Difrod troseddol a llosgi bwriadol: I lawr**
(i lawr o 7,006 i 6,133)
**-12.5%**

# BOD YN LLAIS Y CYHOEDD AR FATERION PLISMONA

Gwnaethom barhau cyflawni gweithrediadau Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu SCHTh. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at gynnydd mewn sylw yn y cyfryngau, dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, cyfleoedd cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygu brand SCHTh ymhellach. Mae ein sylw yn y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol wedi aros yn gyson, hefo tua 50 erthygl ac ysgrif nodwedd bob mis. Rydym hefyd wedi cynyddu nifer y deunyddiau cyfathrebu rydym yn eu cyhoeddi ar ffurf Hawdd ei Ddarllen er mwyn cynyddu hygyrchedd ymhlith y cyhoedd.




Dyfarnodd Cronfa Pêl-droed yr Haf SCHTh a Chymdeithas Bêl-droed Cymru, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2023, grantiau hyd at £4,000 i 7 clwb yng Ngogledd Cymru. Roedd hyn er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc mewn gweithgareddau chwaraeon cadarnhaol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y gwyliau. Cawsom 25 cais a chyrhaeddon ni dros 35,000 o ddefnyddwyr trwy hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

Aeth SCHTh i ddigwyddiadau Ffair y Glas Grŵp Llandrillo Menai ym mis Medi 2023 yng Ngholeg Menai, Bangor, a Choleg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos. Daeth dros 200 o fyfyrwyr newydd i ymweld â stondinau SCHTh, gan roi cyfle i rannu gweledigaethau am gadw'r rhanbarth yn ddiogel a thrafod gwaith y swyddfa hefo pobl ifanc.

Parhaodd troseddau cefn gwlad ac ymgysylltu hefo cymunedau cefn gwlad yn flaenoriaeth allweddol i'r tîm. Er enghraifft, drwy gynorthwyo Strategaeth Bywyd Gwyllt a Throseddau Cefn Gwlad Cymru 2023-2025, mynd i ddigwyddiad Tir Dewi yng Nghaernarfon ar ddiogelu cymunedau cefn gwlad ac ymgysylltu hefo sefydliadau fel NFU Cymru ac UAC mewn digwyddiadau fel sioeau sirol ac Wythnos Brecwast Ffermdy UAC.

Daeth dros 100 o weithwyr proffesiynol i ail gynhadledd flynyddol Pawb yn Un ar 9 Tachwedd, hefo'r prif siaradwyr Dr Sue Hills a'r Athro Jane Monckton Smith. Gan ganolbwyntio ar gynorthwyo pobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern, cafodd y gynhadledd ar y materion hanfodol hyn adborth rhagorol gan y rhai oedd yn bresennol – hefo 100% o'r cynrychiolwyr gweld budd yn y gynhadledd.

Cafodd Arolwg Ymgynghori Praesept 2024-25 1,564 o ymatebion, cynnydd o 50.38%, trwy hyrwyddo helaeth yng Ngogledd Cymru trwy fan ddigidol, hysbysebu, cyfryngau cymdeithasol, fformatau hygyrch, copïau ar-lein a phapur mewn llyfrgelloedd/ gorsafoedd, grwpiau cymunedol, a Rhybudd Cymunedol yr Heddlu, yn ogystal â hyrwyddo gan y Comisiynydd a staff mewn digwyddiadau cyhoeddus.

Ym mis Medi, roedd sesiwn friffio ar-lein SCHTh ar gyfer dros 50 o gynghorwyr sir Gogledd Cymru yn ymdrin â diogelwch personol cynrychiolwyr etholedig, cyflawniadau a blaenoriaethau SCHTh, a chyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru ar sgamiau ar-lein, diogelwch ar y stryd a riportio troseddau.


Gwnaethom barhau â'n cyfarfodydd cymorthfeydd, a gynhaliwyd mewn gwahanol leoliadau ar draws chwe sir Gogledd Cymru, gan gynnwys Llangefni, Y Bermo, Abergele a Glannau Dyfrdwy. Rhoddodd y cymorthfeydd lwyfan gwerthfawr ar gyfer sgwrs agored, gan fynd i'r afael â phryderon, a chryfhau'r berthynas rhwng y cyhoedd a'r CHTh.

Daeth 100 o fusnesau lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru ynghyd ar 22 Mai yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer cynhadledd am ddim a drefnwyd gan SCHTh. Roedd y digwyddiad, hefo siaradwyr rhanbarthol a chenedlaethol, yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am nodi a brwydro yn erbyn bygythiad parhaus Caethwasiaeth Fodern i gymunedau ac economïau lleol.

Roedd SCHTh yn amlwg yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, Gwynedd, a digwyddiadau rhanbarthol fel sioeau Môn, Dinbych a Fflint, a Meirionnydd ym mis Awst. Trwy ymgysylltu hefo'r cyhoedd, rhannu mentrau a thrafod blaenoriaethau diogelwch, denodd y digwyddiadau hyn dros 5,200 o ymwelwyr i stondinau SCHTh.

Ym mis Rhagfyr, cychwynnodd y CHTh Gronfa Nadolig Cymunedol gwerth £15k, a gynorthwyodd 50 o sefydliadau yng Ngogledd Cymru yn ystod tymor yrŵyl. Cafodd y gronfa gefnogaeth gref ymhlith swyddogion a staff CGC a enwebodd grwpiau yn eu cymunedau i dderbyn cyllid.

# DYLETSWYDDAU ATEBOLRWYDD A STATUDOL




- Mae hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth plismona yn hanfodol. Mae'r broses cwynion ac ymddygiad yn cyfrannu at hyn drwy nodi dysgu sefydliadol ac unigolion. Mae hyn er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mewn achosion difrifol, diswyddir staff a swyddogion o'r sefydliad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae 499 o gwynion wedi'u cofnodi hefo 31 cais i'r Comisiynydd Adolygu.
- Yn ystod y misoedd nesaf bydd rheoliadau'r heddlu yn cael eu diwygio er mwyn darparu ffordd gyflymach i'r Prif Gwnstabl fynd i'r afael ag achosion difrifol o ymddygiad o fewn plismona. Byddaf yn cefnogi, ond hefyd yn craffu ar y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau tegwch i swyddogion a'n cymunedau.
- Ym mis Ebrill 2022, nododd HMICFRS yn eu hadroddiad *'Adroddiad ar ymweliad arolwg dirybudd i ddalfeydd yr heddlu yng Ngogledd Cymru'* bod yna graffu cyfyngedig yn y ddalfa. O ganlyniad, sefydlwyd sampl ar hap misol, hefo achosion o ddefnyddio grym, tynnu dillad a charcharu plant yn cael eu hadolygu. Bob mis rwyf yn cael fy nghynrychioli yng nghyfarfod y Rheolwyr Craffu Dalfeydd lle mae unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu arfer da yn cael eu rhannu hefo'r tîm. Adolygir carcharu plant er mwyn sicrhau mai dim ond fel dewis olaf y daw plant i'r ddalfa, bod eu hamser yn y ddalfa yn gyfyngedig a'u bod yn cael cymorth arbenigol tra byddant yn y ddalfa. Amlygodd HMICFRS hefyd y diffyg llety diogel yng Ngogledd Cymru ar gyfer plant sy'n droseddwyr sy'n arwain at gadw plant yn y ddalfa. Yn anffodus, mae hyn yn parhau yn broblem ac mae wedi'i godi hefo Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 cafwyd 13 adroddiad arolygu gan HMICFRS. O'r 13 adroddiad arolygu hynny, dim ond dau o'r adroddiadau oedd yn benodol ar gyfer Gogledd Cymru. Yr adroddiadau hyn oedd *'Trefniadau Fetio Gogledd Cymru'* a *'Arolwg o ymateb rhanbarthol y gogledd-orllewin i droseddau difrifol a threfnedig'*. Rwyf yn parhau monitro cynnydd yr Heddlu wrth gwblhau'r argymhellion a osodwyd gan HMICSFRS yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.
- Ar hyn o bryd mae gennym 24 o Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol sy'n cael eu penodi'n gynrychiolwyr o'r gymuned leol. Mae'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn arsylwi, yn rhoi sylwadau ac yn adrodd ar yr amodau y manylir ar unigolion mewn dalfeydd ledled Gogledd Cymru.

- Eleni, mae Safonau Proffesiynol o fewn plismona yn genedlaethol wedi parhau bod o dan graffu dwys ledled y wlad. Mae hyn yn dilyn troseddau amlwg iawn ac erchyll a gyflawnwyd trwy wasanaethu swyddogion heddlu o fewn Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan.
- Rwyf wedi goruchwylio'r mesurau ychwanegol a weithredwyd ar draws plismona ar ôl cyhoeddi Adroddiad Hotton ac Adroddiad Terfynol y Farwnes Casey i Safonau Ymddygiad a diwylliant mewnol o fewn yr Heddlu Metropolitan.  Rwyf yn nodi cyhoeddi Rhan 1 Adroddiad Ymchwiliad Angiolini. Rwyf yn falch o nodi cyfranogiad gweithredol Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru er mwyn adolygu ac ymateb i'r argymhellion.
- •   Rwyf yn monitro Heddlu Gogledd Cymru drwy fy Mwrdd Craffu Safonau Proffesiynol. Yma mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn adrodd ar gynnydd o ran argymhellion cenedlaethol ac ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n benodol i Ogledd Cymru.  Yna, rhoddir diweddariadau i brif aelodau y Panel Heddlu a Throsedd yn chwarterol.
- Rwyf yn craffu ac yn samplo cwynion a materion camymddwyn dethol ar hap drwy gydol y flwyddyn.
- Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Gofyniad Plismona Strategol cenedlaethol (SPR) ym mis Chwefror 2023. Roedd yn rhoi mwy o fanylion ynghylch y camau gweithredu angenrheidiol gan blismona ar y lefel leol a rhanbarthol yn wyneb bygythiadau cenedlaethol difrifol. Nododd Gofyniad 2023 saith bygythiad cenedlaethol: Troseddau Difrifol a Threfnedig; Terfysgaeth Seiber; Cam-drin Plant yn Rhywiol; Anrhefn Gyhoeddus ac Argyfyngau Sifil, Trais yn Erbyn Merched a Genethod (VAWG), hefo VAWG yn ychwanegiad newydd i'r Gofyniad yn 2023 gan adlewyrchu'r bygythiad mae'n beri i ddiogelwch a hyder y cyhoedd.
- Rwyf wedi derbyn diweddariadau gan y Prif Gwnstabl drwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol. Rwyf yn fodlon fod Heddlu Gogledd Cymru a minnau wedi rhoi sylw dyledus i'r Gofyniad.


## ADRODDIADAU AT WRAIDD Y MATER CRAFFU YN Y BWRDD





















# AMCANION Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD

## CYFLAWNI CYMDOGAETHAU DIOGELACH

- Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd

Eleni, rwyf wedi ariannu datblygu gweithiwr achos diogelwch ffyrdd Gogledd Cymru. Maent yn cael eu cyflogi gan BRAKE sef yr elusen diogelwch ffyrdd er mwyn rhoi cymorth wyneb yn wyneb i deuluoedd yn dilyn gwrthdrawiad ffordd angheuol neu drychinebus. Diben y rôl hon ydy darparu cymorth arbenigol i deuluoedd a lleihau'r galw ar swyddogion cyswllt teuluoedd. Bydd hwn yn gynllun peilot 12 mis i ddechrau. Ar ôl 12 mis, bydd y swydd yn cael ei hadolygu. Yn dilyn hyfforddiant, dechreuodd y gweithiwr achos gynorthwyo unigolion o ganol mis Rhagfyr 2023. Hyd yma, mae wedi cynorthwyo 25 o unigolion yng Ngogledd Cymru.

Fel cynrychiolydd y cyhoedd, rwyf yn parhau derbyn ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi nodi problemau diogelwch ffyrdd yn eu hardal. Yn fwy diweddar, mae trigolion ar Ynys Môn wedi codi eu pryderon oherwydd goryrru parhaus o fewn eu hardal leol. Yn dilyn ymweliad â'r safle, rwyf wedi cysylltu hefo'u cyngor lleol er mwyn gofyn am gynnal adolygiad o'r ffordd o dan sylw ac ystyried gostwng y terfyn cyflymder. Fe wnaf barhau cefnogi cymunedau lleol sy'n nodi materion diogelwch ffyrdd yn eu hardal.

Drwy gydol mis Awst, mi wnes i fynd i sioeau amaethyddol hefo Tîm Troseddau Seiber Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo diogelwch ar-lein i'r cymunedau cefn gwlad. Roedd yn fuddiol cyfarfod hefo'r gymuned cefn gwlad a gwrando ar eu pryderon a'u barn o ran plismona yn eu hardal. Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, roedd yn fraint dathlu pen-blwydd y Tîm Troseddau Cefn Gwlad yn ddeg oed hefo fy rhagflaenwyr a'r Prif Gwnstabl. Mae ehangu'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad ers ei sefydlu yn 2013, yn dangos effeithiolrwydd a phwysigrwydd eu hymroddiad i gymunedau cefn gwlad.

Rwyf yn parhau cyfarfod hefo'r undebau amaeth yn chwarterol hefo'r Prif Gwnstabl er mwyn gwneud yn si r fod cyfathrebu agored rhwng cymunedau cefn gwlad a phlismona. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr. Maent wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddeall y materion a'r pryderon ynghylch trosedd o fewn y gymuned cefn gwlad.



# CYNORTHWYO DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

- Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Diogelu pobl fregus gan gynnwys plant
- Ymdrin ac atal troseddau seiber
- Sefydlu panel dioddefwyr
- Atal a mynd i'r afael â Throsedd Casineb

Fe wnaethon ni gynnal gweithdy hefo partneriaid ac edrych ar brofiadau dioddefwyr cam-drin domestig o'r dechrau i'r diwedd ar draws y system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru. Crëwyd cynllun lleol er mwyn sbarduno newid systemig a lleihau'r nifer o ddioddefwyr sy'n tynnu'n ôl. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn golygu bod Gogledd Cymru eisoes yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cynllun Cyfiawnder ar y Cyd Cam-drin Domestig a fydd yn gwella'r ymateb i gam-drin domestig a sut mae'n cael ei ymchwilio ledled Cymru a Lloegr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gofyniad Plismona Strategol cenedlaethol wedi cwmpasu VAWG fel blaenoriaeth plismona allweddol wrth symud ymlaen. Fe wnes i graffu gwraidd y mater yng nghyfarfod mis Mai fy Mwrdd Gweithredol Strategol. Cefais wybod gan y Prif Gwnstabl fod dadansoddiad bwlch wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Gwella ansawdd ymchwiliadau a sut rydym yn asesu cyflawniad.
    - Diweddariadau dioddefwyr a pharhau rheoli cysylltiadau.
    - Ceisiadau am orchmynion sifil a rheoli toriadau.
    - Cyfranogiad cyson Timau Plismona Cymdogaethau.
    - Proffiliau cudd-wybodaeth yr heddlu a chyflwyniadau cudd-wybodaeth.

Mewn ymateb, trefnwyd digwyddiad arweinyddiaeth gychwynnol hefo rheolwyr ac arweinwyr ardal er mwyn tynnu sylw at arfer gorau ac annog:

- Casglu gwybodaeth yn well er mwyn cynorthwyo proffiliau problemau.
    - Gwell ymwybyddiaeth o setiau data RFGV hefo cyfleoedd canolbwyntio ar droseddwyr a dioddefwyr mynych.
    - Gwell cyfathrebu yn manteisio ar lwyddiannau gwahanol ddulliau o ymdrin â phartneriaid mewnol ac allanol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi ymgysylltu'n rheolaidd hefo aelodau o'r gymuned fusnes a manwerthu, gan gynnwys ffederasiynau a chymdeithasau, er mwyn deall yr anghenion a'r heriau a wynebir.

Mae grwpiau gorchwyl a gorffen o fewn y Fforwm wedi bod yn gwneud gwaith gwerthfawr gan gynnwys:

- Sefydlu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar draws Gogledd Cymru ar gyfer darganfod dioddefwyr caethwasiaeth fodern (yn cwmpasu gwasanaethau dioddefwyr a safleoedd gorffwys ac adfer).
- Cynnal digwyddiad er mwyn amlygu sut mae Caethwasiaeth Fodern yn bodoli yn yr economi ôl-bandemig – yn enwedig o fewn y sector gofal. Hefyd yn cynnal digwyddiad a oedd yn edrych sut mae caethwasiaeth fodern yn effeithio ar bobl ifanc, yn enwedig camfanteisio troseddol. Cyflawni agweddau allweddol Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru
- Mae'r DCHTh wedi cefnogi a siarad mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys:
    - Llinellau cyffuriau a chamfanteisio'n droseddol ar blant
    - Gwaith rhyw
    - Camfanteisio llafur/y sector gofal

Mae'r dull partneriaeth o fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern yng Ngogledd Cymru wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel arfer da.

Rwyf yn parhau craffu Heddlu Gogledd Cymru ar ei gyflawniad ynghylch troseddau difrifol a threfnedig sy'n cynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, a throseddau mewnfudo trefnedig. Mae fy Nirprwy CHTh yn cyfarfod hefo pennaeth yr Uned Camfanteisio bob chwarter. Yn ogystal, rwyf wedi cynnal sesiynau at wraidd y mater ar Gaethwasiaeth Fodern a Throseddau Mewnfudo Trefnedig drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Rwyf yn parhau gyda fy nghraffu drwy fyrddau strategol Heddlu Gogledd Cymru gan gynnwys y Bwrdd Ansawdd Gwasanaeth a Bwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Cymru Gyfan.

Mae gwaith partneriaeth drwy'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn parhau'n sylfaenol i'r ffordd yr ymdrinnir â chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru. Mae fy Mhrif Swyddog Gweithredol yn parhau i gadeirio'r Bwrdd hwn.  Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Caethwasiaeth Fodern, sy'n adrodd i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio, wedi dod yn gonglfaen gweithio mewn partneriaeth sydd wedi hen sefydlu.

Eleni rwyf wedi cynnal craffu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda chyfranogiad gweithredol o'm Swyddfa ym Mwrdd y Gymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyfranogiad a phresenoldeb yng nghyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Hil, Grŵp LHDT a'r Grŵp Anabledd.

Rwyf yn parhau i gomisiynu Get Safe Online ddarparu gwasanaeth cymorth seiber i gymunedau Gogledd Cymru.  Mae Get Safe Online yn bartneriaeth sector cyhoeddus / sector preifat nid er elw a gynorthwyir gan sefydliadau arweiniol mewn bancio, manwerthu, diogelwch rhyngrwyd a sectorau eraill. Maent gyda thystysgrif Cyber Essentials.

Ym mis Mehefin, fe wnes i gynnal y digwyddiad 'Diogelwch Seiber Gogledd Cymru' cyntaf, a oedd yn rhoi cipolwg hanfodol i berchnogion busnes ar ddiogelu eu mentrau rhag troseddau seiber sy'n esblygu o hyd.

## Ymgysylltu hefo/Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Mae fy Swyddfa wedi cynorthwyo'r Heddlu sefydlu a rhedeg blwyddyn gyntaf y grŵp Llysgenhadon Ifanc. Mae cyfarfodydd y Llysgenhadon Ifanc wedi cael eu cynnal bob chwe wythnos ac wedi edrych ar themâu gwahanol o ran plismona sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae'r Llysgenhadon Ifanc wedi ymgysylltu ymhellach â'u cyfoedion ac wedi bwydo hyn yn ôl i'r Heddlu. Byddaf yn parhau cynorthwyo datblygiad y rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn y flwyddyn i ddod.


Rwyf wedi cynnal sawl ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori hefo pobl ifanc eleni, a nodir yn adran gyfathrebu ac ymgysylltu'r adroddiad hwn.

Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023 ynghylch tynnu cyllid ar gyfer y Rhaglen School Beat yn siom chwerw. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae adolygiad ar y gweill ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn ein hysgolion yn y dyfodol. Mae'r Prif Gwnstabl a finnau'n parhau'n ymroi cyflawni'r rhaglen hon ar rhyw ffurf.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ynghyd â'r Heddlu, cyhoeddais Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd newydd. Roedd hyn yn dilyn y gwaith a wnaed yn gynharach y llynedd er mwyn ymgysylltu ac ymchwilio i'r hyn y dylai'r amcanion cydraddoldeb strategol newydd fod.  Yr amcanion hyn ydy:

- **Llywodraethu Effeithiol** – Wrth fodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb, fe wnawn arfer llywodraethu effeithiol, bod yn dryloyw a sicrhau goruchwyliaeth gyhoeddus.
- **Ein Cyhoedd** – Fe wnawn annog cyfranogiad a sicrhau nad ydy pobl yn cael eu plismona ormod ac yn cael digon o warchodaeth.
- **Ein Partneriaid** –  Fe wnawn gydweithredu hefo partneriaid er mwyn gwella ein cyflawniad cydraddoldeb.
- **Ein Sefydliad** – Fe wnawn greu amgylchfyd cynorthwyol sy'n creu diwylliant cynhwysol.
- **Ein Gweithlu** – Fe wnawn weithio tuag at gyflawni gweithlu sy'n cynrychioli ac sy'n broffesiynol, sy'n cynnwys pobl gyda'r sgiliau cywir.




Gellir gweld y cynllun llawn [yma](). (Fersiwn Saesneg [yma]())

- Rwyf yn nodi ac yn cefnogi'r gwaith sy'n digwydd yn yr Heddlu er mwyn sicrhau bod gan Ddiwylliant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb y lefel gywir o lywodraethu a chraffu. Mae fy Swyddfa'n parhau cymryd rhan weithredol ar bob lefel ac mae'n cefnogi'r newidiadau i'r byrddau llywodraethu.
- Rwyf yn croesawu'r her o gael mwy o aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan mewn craffu ar yr Heddlu. Mae fy Swyddfa yn mynychu pob cyfarfod gr p cyswllt rhanddeiliaid (gan gynnwys cadeirio cyfarfod Rhanddeiliaid Hiliol) ac yn cymryd rhan weithredol yn y sesiynau craffu Camerâu Corff. Rydym yn parhau cynorthwyo'r Heddlu cael mwy o aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn y gwaith hwn.
- Mae gwella cynrychiolaeth y gweithlu yn parhau bod yn faes anodd i'r Heddlu. Rwyf yn parhau monitro hyn. Mae Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu CCPSH a Chynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn darparu ar gyfer yr angen i gynyddu nifer y swyddogion a'r staff heddlu du a lleiafrifoedd ethnig. Mae Heddlu Gogledd Cymru a'm Swyddfa i'n cydweithio hefo partneriaid er mwyn bodloni holl ofynion y cynlluniau hyn.

Rwyf yn falch mai ein Prif Gwnstabl yng Ngogledd Cymru ydy'r arweinydd cenedlaethol ar gyfer Troseddau Caffael a'n Prif Uwcharolygydd Alex Goss ydy'r arweinydd cenedlaethol ar gyfer Troseddau Manwerthu. Felly pan gafodd y Cynllun Gweithredu Troseddau Manwerthu ei lansio'n genedlaethol ym mis Hydref 2023, roedd ein heddlu ni ar flaen y gad wrth sicrhau ei fod yn cael ei weithredu ar draws Gogledd Cymru. Roedd hyn yn nodi dechrau sylw o'r newydd ar fynd i'r afael â throseddau manwerthu ynghyd â chanllawiau i berchnogion busnes a staff ar sut a beth i'w adrodd. Bydd yn ein cynorthwyo ni gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn brwydro yn erbyn effaith economaidd a chymdeithasol y troseddau hyn. Er mai dim ond chwech mis sydd ers lansio'r Cynllun newydd, rwyf yn falch o ddweud bod prosesau'n cael eu gwella'n sylweddol. Mae prosesau newydd yn yr Ystafell Reoli er mwyn blaenoriaethu presenoldeb yr heddlu pan mae troseddwyr yn dreisgar neu wedi cael eu carcharu os ydy tystiolaeth wedi'i sicrhau. Mae prosesau hefyd er mwyn nodi a dargyfeirio neu erlyn troseddwyr mynych.

Ym mis Ebrill 2023 fe wnaethom sefydlu Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru. Diben y Panel ydy "Galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol eraill glywed lleisiau dioddefwyr yng Ngogledd Cymru a deall eu profiadau o'r broses cyfiawnder troseddol yn well, er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth." Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi cyfarfod bedair gwaith. Ar bob achlysur, mae wedi arwain at wneud nifer o argymhellion er mwyn gwella'r gwasanaethau a roddir i ddioddefwyr. Rydym hefyd wedi gweithio hefo rhwydwaith o grwpiau goroeswyr ledled Gogledd Cymru a ddywedodd wrthym fod llwybrau cymorth, cyfathrebu, hyfforddiant ac unioni hefo'r llysoedd teulu yn themâu trawsbynciol y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae eu lleisiau wedi llywio Cynllun Cyflawni Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru.

## Cyfiawnder Adferol a Throseddau Casineb

Nodwyd y byddai llawer o ddioddefwyr troseddau casineb yn annog y defnydd o gyfiawnder adferol oherwydd ei allu i ganiatáu dioddefwyr esbonio'r effaith y mae gweithredoedd y troseddwr wedi'i achosi. Mae'r defnydd o gyfiawnder adferol mewn achosion o droseddau casineb yng Ngogledd Cymru yn isel oherwydd lefel yr atgyfeiriadau. Fodd bynnag, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo hefo'r Tîm Amrywiaeth er mwyn hyrwyddo cyfiawnder adferol i'r hyrwyddwyr troseddau casineb newydd o fewn yr heddlu. Bydd Cyfiawnder Adferol r  an yn cael ei esbonio a'i gynnig yn rheolaidd i bob dioddefwr troseddau casineb.

- Rwyf yn monitro ffigyrau troseddau casineb drwy gydol y flwyddyn ac yn nodi ail flwyddyn o ostyngiadau yn nifer y troseddau casineb a adroddwyd.  Cafwyd gostyngiad cyffredinol o 1294 ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf 2022/23, i 1026 o adroddiadau eleni (2023/24). Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 20%. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol bu gostyngiad hefo'r saith mlynedd flaenorol yn gweld ffigyrau yn cynyddu'n gyson (yn enwedig dros gyfnod pandemig Covid).
- Mae'r gostyngiadau ar draws y rhan fwyaf o'r nodweddion gwarchodedig hefo dim ond Troseddau Casineb yn seiliedig ar grefydd yn dangos cynnydd. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd digwyddiadau'r byd e.e. gwrthdaro rhwng Israel a Phalesteina. Fodd bynnag, rhaid nodi bod y ffigyrau presennol ar gyfer casineb wedi'i gymell gan grefydd yn isel iawn.  Ar ben hynny, nid ydy Gogledd Cymru wedi gweld y cynnydd mewn casineb wedi'i gymell gan grefydd sydd wedi'i brofi mewn mannau eraill yn y DU. Hyd at ddiwedd y flwyddyn, mae tensiynau wedi bod yn sefydlog. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyffredinol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yn adlewyrchu'r ffigyrau o fannau eraill yn y DU hefo gostyngiad cenedlaethol mewn adroddiadau am Droseddau Casineb.
- Er ei bod yn galonogol gweld gostyngiad, rwyf hefyd yn ymwybodol bod hyder dioddefwyr i riportio am droseddau casineb yn hen fater ac felly rwyf yn parhau hefo fy ngwaith er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog riportio.
- Rwyf wedi monitro perfformiad troseddau casineb drwy gydol y flwyddyn ac wedi bod yn falch o nodi cynnydd yn lefelau bodlonrwydd dioddefwyr. Mae mesurau y mae'r Heddlu wedi'u cymryd er mwyn gwella eu hymateb i droseddau casineb wedi arwain at gyflawniad gwell. Mae hyn yn cynnwys dyrannu Swyddog Amrywiaeth ychwanegol a hyfforddi hyrwyddwyr troseddau casineb ledled plismona lleol.
- Rwyf yn parhau gyda fy nghraffu drwy fyrddau strategol Heddlu Gogledd Cymru gan gynnwys y Bwrdd Ansawdd Gwasanaeth a Bwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Cymru Gyfan.
- Fe wnes i gynnal digwyddiad ar-lein gan gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. Daeth dros 80 i'r digwyddiad hefo diddordeb mewn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr trosedd casineb.  Gweler yr adroddiad ôl-ddigwyddiad yma.

# SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL EFFEITHIOL A THEG

- Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

Mae'r system cyfiawnder troseddol ar draws Gogledd Cymru yn cynnwys rhannau lluosog, wedi'u goruchwylio gan sefydliadau gwahanol. Nod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru (NWCJB) ydy sicrhau bod pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yn gweithio'n ddi-dor hefo'i gilydd er mwyn sicrhau bod y system yn deg, effeithlon ac effeithiol i ddioddefwyr, tystion a phobl sydd wedi troseddu.

Dyma rai enghreifftiau sut rydym wedi cydweithio hefo'n partneriaid er mwyn darparu system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon yng Ngogledd Cymru dros y 12 mis diwethaf:

- *Ein dull cyson o fynd i'r afael â throseddu yng Ngogledd Cymru:* Cwblhawyd proffiliau troseddu lleol o dan arweiniad tystiolaeth. Roedd hyn er mwyn hysbysu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru am y mathau mwyaf cyffredin o droseddau, demograffeg, anghenion troseddegol a chymhellwyr troseddu a'r gwasanaethau a'r ymyriadau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r ymddygiad troseddol a lleihau troseddu. Fe wnaethon ni gasglu a dadansoddi ystod o ddata er mwyn deall yr hyn sy'n gyrru ymddygiad troseddol yng Ngogledd Cymru ac asesu a ydym yn mynd i'r afael ag anghenion troseddwyr. Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r dystiolaeth hon er mwyn datblygu cynllun lleol 'Pobl sy'n Troseddu'. Y nod fydd lleihau troseddu a chreu cymunedau mwy diogel.
- *Dod yn System Cyfiawnder Troseddol Gwrth Hiliaeth:* Mae Adroddiad Blynyddol cyntaf Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru Gyfan yn nodi ein cyflawniadau o ran y Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys hyfforddiant, cynllun cyfathrebu ac ymchwil troseddau casineb. Yr hyn sy'n bwysig ydy ei fod hefyd yn ein hatgoffa bod gennym fwy o waith i'w wneud.
- *Mae dioddefwyr a thystion yn fwy ymwybodol o fesurau penodol:* Dywedodd goroeswyr wrthym y llynedd fod mesurau penodol a rhoi tystiolaeth o bell yn fuddiol ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus wrth roi tystiolaeth. Felly, gwnaethom barhau sicrhau bod pob dioddefwr a thystion yn cael gwybod am fesurau penodol trwy eiriolwyr mesurau penodol. Rydym yn falch o adrodd bod y defnydd o'r tri Safle Tystiolaeth o Bell yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu'n sylweddol yn 23/24 a byddwn yn parhau monitro eu defnydd wrth symud ymlaen.
- *Goruchwylio'r ymateb i drais ar draws y System Cyfiawnder Troseddol:* Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r GEG yng Ngogledd Cymru yn rhan o raglen trawsnewid treisio'r Llywodraeth, sef Ymgyrch Soteria. Mae'r Bwrdd yn gweithio hefo Gr  p Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol Cymru er mwyn deall yr ymateb y mae dioddefwyr trais rhywiol yn ei gael yng Nghymru, gan nodi, a rhannu mentrau newydd ac arfer gorau, a chydnabod heriau cyfarwydd. Rydym yn parhau defnyddio data dangosfwrdd dosbarthu Trais Oedolion y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn monitro a ydy'r gweithgareddau sy'n cael eu cymell trwy Ymgyrch Soteria yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i oroeswyr treisio. Mae'r data'n dangos bod achosion treisio yng Nghymru yn parhau cael eu cwblhau 100 diwrnod yn gynharach ar gyfartaledd na'r amser cyfartalog ledled Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae gennym fwy o waith i'w wneud yn 24/25 er mwyn gwella ymgysylltiad dioddefwyr, gan gynnwys sefydlu Fforwm Gwasanaethau Cynghori Goroeswyr Cam-drin Rhywiol penodol yng Ngogledd Cymru.
- *Dod yn System Cyfiawnder Troseddol wedi'i llywio gan Drawma:* Mae'n dyst i'n gwaith partneriaeth a'n gweledigaeth ar y cyd bod Heddlu Gogledd Cymru, GEG, GLITEF a HMPPS yng Ngogledd Cymru ar eu ffordd i fod yn sefydliadau sy'n seiliedig ar drawma.

Mae **Cyfiawnder Adferol** yn parhau cael ei gymell gan ein Swyddog Cyfiawnder Adferol Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi darparu hyfforddiant gloywi i'n Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr er mwyn annog atgyfeiriadau. Ym mis Chwefror 2023, rhyddhaodd HMPPS eu Fframwaith Polisi Cyfiawnder Adferol a oedd yn amlinellu'r gofyniad i achosion adferol risg uchel gael eu cyfeirio drwy'r hyb adferol.

Mae'r hyb adferol yn cydlynu cyfiawnder adferol ar draws HMPPS (carchar a chymuned), rheoli risgiau cysylltiedig a datblygu ansawdd ymarfer.

Mae'r hyb adferol yn cydlynu achosion hefo cymhlethdodau ychwanegol neu achosion sensitif. Gall achosion sensitif a chymhleth gynnwys llofruddiaeth a throseddau rhywiol. Mae pob achos o fewn y meini prawf hyn yn cael eu cyfeirio drwy'r hyb adferol a'r panel cymeradwyo cyfiawnder adferol. Mae'r panel yn cael ei gadeirio gan yr hyb adferol ac yn ystyried ceisiadau Cyfiawnder Adferol trwy adolygu a gwerthuso risgiau a manteision pob achos.

Yn anffodus, roedd Swyddog Cyfiawnder Adferol Heddlu Gogledd Cymru yn profi oedi helaeth oherwydd bod yr hyb adferol yn cymryd amser hir er mwyn ystyried ceisiadau. Roedd hyn yn arwain at ddioddefwyr yn aros blynyddoedd er mwyn darganfod a fyddai'r gynhadledd Cyfiawnder Adferol yn mynd yn ei blaen. Ym mis Gorffennaf fe wnes i gyfarfod hefo Tîm Rheoli'r hyb adferol ynghyd â Swyddog Cyfiawnder Adferol Heddlu Gogledd Cymru er mwyn ystyried ffordd ymlaen o ran atal oedi o'r fath yn y dyfodol. Yn dilyn y cyfarfod hwn bu gwelliant yn lefel y cyfathrebu o'r hyb adferol. Byddaf yn parhau monitro ei gynnydd er mwyn sicrhau nad ydy'r materion yn ailddigwydd.



# ARIANNU A CHYLLID

| | Cyllideb Wreiddiol £m | Cyllideb Ddiwygiedig £m | Alldro £m | Gorwario/ (Tanwario) £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Swyddogion a Staff | 167.904 | 172.750 | 172.161 | (0.589) |
| Eiddo | 12.440 | 11.474 | 10.433 | (1.041) |
| Trafnidiaeth | 3.943 | 3.955 | 3.137 | (0.818) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 27.792 | 29.235 | 30.371 | 1.136 |
| Argyfyngau | 1.066 | - | - | - |
| Costau Dyledion a Chostau i Gyfalaf | 4.949 | 5.069 | 5.167 | 0.098 |
| Comisiynu | 3.570 | 5.543 | 5.691 | 0.148 |
| Cydweithrediadau a Phartneriaethau | - | 4.492 | 4.492 | - |
| **Gwariant gros** | **221.664** | **232.518** | **231.452** | **(1.066)** |
| Grantiau Comisiynu | - | (1.116) | (1.116) | - |
| Cydweithrediadau a Phartneriaethau | - | (4.926) | (4.926) | - |
| Incwm Arall | (31.100) | (38.332) | (40.831) | (2.499) |
| **Cyfanswm incwm** | **(31.100)** | **(44.374)** | **(46.873)** | **(2.499)** |
| Symudiadau arfaethedig mewn cronfeydd wrth gefn | (1.605) | 815 | 815 | - |
| **Gwariant net** | **188.959** | **188.959** | **183.954** | **(3.565)** |
| Trosglwyddo tanwariant i gronfeydd wrth gefn | - | - | 3.565 | 3.565 |
| **Cyfanswm gwariant** | **188.959** | **188.959** | **188.959** | **-** |
| **Ariennir gan:** | | | | |
| Grantiau Llywodraeth | (88.715) | (88.715) | (88.715) | - |
| Praesept | (100.244) | (100.244) | (100.244) | - |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **(188.959)** | **(188.959)** | **(188.959)** | **-** |

Cynlluniwyd a chyflawnwyd arbedion o **£3.753m** yn ystod y flwyddyn.

Fe warion ni lai o arian nag oedden ni'n ei ddisgwyl ar adeiladau a thrafnidiaeth ond gwario mwy ar uwchraddio dodrefn ac offer er mwyn galluogi gweithio ystwyth.

Parhaodd cyfraddau llog yn uwch, felly enillon ni fwy o arian ar ein buddsoddiadau.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

@NorthWalesPCC

@schthgc_nwopcc

schthgc_nwopcc



















www.northwales-pcc.gov.uk